**Adolygiad dilynol - Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru**

**Adroddiad Pwyllgar AC (3)-08-R10**

Rydym yn croesawu'r darganfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r deg argymhellion yn yr adroddiad

**1. Argymhelliad:**

Un o'r heriau mwyaf sylfaenol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth yw rhoi hwb i ysbryd y
staff. Y gweithlu yw caffaeliad mwyaf yr Ymddiriedolaeth, a bydd ennyn diddordeb y
staff yn yr agenda newid a sicrhau mwy o falchder yn y sefydliad yn arwain at fanteision sylweddol.

**Rydym yn argymell bod yr Ymddiriedolaeth yn datblygu cynllun gweithredu a hwnnw wedi'i lunio'n benodol er mwyn rhoi hwb i ysbryd y staff. Dylai hyn gynnwys:**

a) **gwella'r prosesau cyfathrebu rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i staff gweithrediadol. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth gymryd camau pendant i gyfathrebu â'i staff wrth gyfleu negeseuon am y ffordd ymlaen, yn ogystal â chanfod barn y staff am sut y gall yr Ymddiriedolaeth wella. Wrth wella'r prosesau cyfathrebu hyn, rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cyfathrebu wyneb yn wyneb â rheolwyr a'r ddibyniaeth ar y rhyngrwyd.**

b) **rhoi hwb i hyder y gweithlu a gwella'u dealltwriaeth o gynllun moderneiddio'r Ymddiriedolaeth, *Amser i Wneud Gwahaniaeth*. Ar ôl penderfynu newid pwyslais y cynllun moderneiddio, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod pawb yn deall y weledigaeth newydd, a dylid anfon taflen at bob aelod o staff yn crynhoi'r prif gamau a'r prif amcanion yn unig. Dylai'r daflen nodi'n glir beth sy'n cael ei wneud, ac yn hollbwysig, pam hynny;**

c) **pennu amcanion personol a phenodol i gyfarwyddwyr gweithredol, arweinwyr tîm clinigol a swyddogion ambiwlans rhanbarthol o fewn yr Ymddiriedolaeth. Yn sgil hyn, dylid rhoi hwb i ysbryd gweddill y staff a phennu amcanion ar gyfer pob aelod o staff er mwyn moderneiddio;**

d) **mynd i'r afael ag unrhyw ymdeimlad o fwlio ac aflonyddu drwy roi memorandwm clir i bob aelod o staff yn cydnabod y teimladau ac yn datgan bwriad yr Ymddiriedolaeth i gael gwared ag ymddygiad annerbyniol. Dylai'r Ymddiriedolaeth bwysleisio wrth y staff sut fath o ymddygiad y disgwylir ganddynt hwy a'u cydweithwyr. Dylai'r staff gael arweiniad clir ar y camau y dylent eu cymryd os byddant yn**

**dioddef o fwlio neu aflonyddu neu'n dyst iddo, a dylai'r Ymddiriedolaeth dynnu sylw drachefn at y cymorth allanol sydd ar gael er lles y staff;**

e) **dangos bod y sefydliad yn gwerthfawrogi ei staff a'r gwaith hanfodol y maent yn ei wneud. Os bydd sylwadau'r staff yn cael eu defnyddio i wella'r Ymddiriedolaeth, dylid cydnabod hynny'n llawn, a dylai'r Ymddiriedolaeth sefydlu systemau hefyd i gydnabod staff sy'n ymddwyn yn arbennig o gadarnhaol, a hynny drwy brosesau gwerthuso staff ond hefyd drwy gydnabod a rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwaith da sy'n cael ei wneud;**

f) **cynnwys staff yn llawnach mewn penderfyniadau wrth ddadansoddi'r galw am wasanaethau a'r rotas, fel bod gwybodaeth leol fanwl ar gael yn ychwanegol at y wybodaeth ystadegol.**

**Derbyniwyd**: a) Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) wedi creu a pharhau i ddatblygu Cynllun Gwella ar Sail yr Arolwg Staff mewn partneriaeth â chydweithwyr sy'n cynrychioli'r staff. Bu hwn yn ddull seiliedig ar dystiolaeth o fynd i'r afael â materion allweddol morâl a nodwyd yn yr Arolwg Ymgysylltu â Gweithwyr, a gynhaliwyd gan GIG Cymru yn ei gyfanrwydd ym mis Hydref 2007. Cafodd y cynllun ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ei adolygu ym mis Gorffennaf 2008. Yn benodol, mae pedair prif thema: buddsoddi yn natblygiad Rheolwyr Llinell (e.e. y Rhaglen Ddysgu Sgiliau Rheoli (MSLP); sicrhau bod strwythurau yn eu lle (e.e. Cynlluniau Datblygu Personol (CDP) / Fframwaith Sgiliau Allweddol (KSF); crisalu sut y mae cyfathrebu'n effeithiol; cynnwys cymaint o gydweithwyr â phosibl (cynlluniau lleol).

Mae gwaith ar bob elfen ar y cynllun wedi hen gychwyn erbyn hyn, ac mae'r cynnydd a wnaed yn cael ei adrodd i'r grŵp Rheoli Gweithredol a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio'n agos â Chydffederasiwn GIG Cymru i greu canllawiau ar arfer gorau ym maes Cyfathrebu, gyda'r bwriad yn benodol o gyflwyno model Cymreig ar gyfer Trosglwyddo Gwybodaeth i Dimau. Disgwylir i'r canllawiau hyn gael eu cyhoeddi yng Ngwanwyn 2009.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sicrhau bod pob rheolwr yn ymwybodol o ba mor bwysig yw dod i gysylltiad wyneb-yn-wyneb ag aelodau unigol o staff yn rheolaidd, ac adrodd am hynny yng nghyfarfodydd y Rheolwyr Gweithredol, Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r rhaglen MSLP. Mae'r wybodaeth hefyd yn cael ei rhoi ar fewnrwyd yr Ymddiriedolaeth. Mae disgwyl i bob rheolwr gyfarfod yn rheolaidd â'u staff, a monitro'r wybodaeth ddiweddaraf drwy gyfrwng Cyfarwyddwyr Rhanbarthol.

Mae'n werth nodi bod yr Ymddiriedolaeth ar fin lansio canllawiau i staff ar arfer cyfathrebu da, a gafodd eu paratoi ar y cyd â Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG, ac mewn partneriaeth â chynrychiolwyr y Staff. Mae

nifer o Ymddiriedolaethau wedi nodi y byddent yn awyddus i roi'r rhain ar waith yn eu hardaloedd.

b) Mae WAST wedi cynhyrchu taflen i'w chyhoeddi yn eu cylchgrawn ar gyfer staff, *Siren*, yn gofyn iddynt gefnogi'r Cynllun Moderneiddio. Bydd y cylchgrawn ar gael i bob aelod o staff, ar ffurf papur ac yn electronig, erbyn dechrau mis Rhagfyr 2009.

c) Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob aelod o staff CDP yn barod erbyn 31 Rhagfyr 2008. Er mwyn gwireddu hynny, bydd amcanion yn cael eu gosod ar gyfer pob rheolwr yn unol ag amcanion yr Ymddiriedolaeth a'r Gyfarwyddiaeth.
Bydd rhaid i bob cyfarwyddwr drosglwyddo'r wybodaeth ddiweddaraf am hynny yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar 25 Tachwedd 2008.
Bydd cefnogi'r Cynllun Moderneiddio yn cael ei gynnwys yn nisgrifiadau swyddi Arweinwyr y Timau Clinigol.

**Amserlen: 31 Rhagfyr 2008**

d) Mae gan GIG Cymru Bolisi Urddas yn y Gweithle ar gyfer Cymru Gyfan sy'n nodi'n glir y dylid dileu ymddygiad amhriodol.

Mae WAST wedi creu ffrwd waith benodol fel rhan o'r Cynllun Gwella ar Sail Arolygon Staff, mewn partneriaeth â chynrychiolwyr y Staff a Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG, i fynd i'r afael â'r lefel uchel a nodwyd yn yr Arolwg o achosion lle mae staff o'r farn eu bod yn cael eu bwlïo ac yr aflonyddir arnynt.
Mae'r gwaith hwn yn golygu creu a gweithredu polisi newydd, sefydlu Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ac addysgu rheolwyr a staff yn briodol. Mae'r rhain, yn ogystal â'r camau gweithredu eraill, yn cael eu cyfuno mewn ymgyrch gydgysylltiedig i sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r ymddygiad sy'n ddisgwyliedig ganddynt. Mae Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG wedi dadansoddi adroddiad arolwg staff yr Ymddiriedolaeth, a chafodd yr argymhellion a ddeilliodd ohono eu cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Medi. Bydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gweithio i yrru'r argymhellion hynny yn eu blaenau. Bydd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau erbyn mis Gorffennaf 2009.

e) Mae Cynllun Cydnabod Staff wedi cael ei greu a'i roi ar waith. Un o'r negeseuon allweddol yw pa mor bwysig yw gwerthfawrogi cydweithwyr, a chael eich gwerthfawrogi ganddynt (yn enwedig yn achos gwerthfawrogiad rheolwyr o'u staff). Mae pwyslais yn cael ei roi ar hynny mewn deunyddiau ysgrifenedig penodol ar gyfer pob aelod o staff, ac mewn sesiynau MSLP gyda rheolwyr.

f) Mae rheolwyr WAST wedi sefydlu fforymau i helpu i wella'r llais sydd gan weithwyr o ran eu dulliau gweithio, drwy gyfrwng cynlluniau gweithredu lleol. Bydd un o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bresennol yng

nghyfarfod llawn Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi WAST ar 2 Rhagfyr i roi darlun cyffredinol o sut y bydd y safon AD Gwella Bywydau Gwaith (Cymru) yn cael ei gyflwyno yn ystod Haf 2009. Mae staff yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a defnyddio cynlluniau a rotâu a gwaith ychwanegol o dan gynllun gweithredu cynllunio'r gweithlu (gweler 6 isod).

## 2. Argymhelliad:

Mae'r trafferthion parhaus wrth recriwtio cyfarwyddwr adnoddau dynol amser llawn wedi effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i benodi arweinwyr tîm clinigol a chynnal gwerthusiadau staff.

**Ar ôl penodi haen newydd o arweinwyr tîm clinigol, rydym yn argymell bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud y canlynol:**

a) **galluogi'r arweinwyr tîm i wneud eu gwaith a sicrhau eu bod yn treulio amser yn ennill ymddiriedaeth a hyder y staff gweithrediadol; mae angen i'r Ymddiriedolaeth roi digon o hyfforddiant ac amser iddynt allu gwneud gwahaniaeth yn eu swyddi newydd;**

b) **cynnal gwerthusiadau staff ar fyrder, hyd yn oed os bydd angen datblygu'r system ymhellach dros amser. Gan y bydd nifer o aelodau o'r staff yn anghyfarwydd â phrosesau gwerthuso, dylid rhoi arweiniad clir iddynt ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'r hyn y mae'r broses yn ceisio'i gyflawni.**

**Derbyniwyd**: Mae Cyfarwyddwr AD llawnamser wedi'i benodi erbyn hyn. Cychwynnodd ar ei waith ar 1 Tachwedd 2008.

a. Bydd swyddi Arweinwyr y Timau Clinigol yn cymryd cyfrifoldeb am rôl pob Goruchwyliwr Parafeddygol Band 6 WAST. Gwnaeth WAST ddewis sefydlu arweinwyr tîm gan nad oedd rôl y goruchwyliwr parafeddygol yn glir iawn cyn hyn. Roedd hynny'n arwain at anawsterau, gan gynnwys cyfathrebu gwael a phellter rhwng staff a'u rheolwyr llinell. Mae swyddogaethau newydd yr arweinwyr tîm yn allweddol ym marn WAST, gan fydd cyfrifoldebau rheoli llinell clir iawn yn perthyn i'r swydd. Bydd y swydd yn fwy lleol, gan reoli grwpiau bach o tua dwsin o staff (yn hytrach na rheoli mwy na 50 parafeddyg o bell).

Bydd gan yr arweinydd tîm gyfrifoldeb am ddatblygu ac asesu arfer clinigol y parafeddygon yn eu timau. Bydd y swydd hefyd yn gwella'r cyfathrebu, sydd wedi bod yn broblem i'r Ymddiriedolaeth ers amser. Bydd yr arweinwyr tîm yn gwneud gwaith clinigol ond byddant hefyd yn cael amser penodedig i gyflawni eu cyfrifoldebau fel arweinwyr tîm, er mwyn datblygu arfer clinigol eu timau.

Mae'r cynllun  gweithredu ar gyfer cyflwyno Arweinwyr Tîm Clinigol yn cynnwys rhaglen ddatblygu fanwl sy'n cynnwys Adolygiad o Ddatblygiad Personol (ADP) cyn pen dau fis o gychwyn y swydd. Bydd hynny'n golygu bod gan bob Arweinydd Tîm Clinigol CDP. Mae rhai ardaloedd wedi penodi Arweinwyr Timau Clinigol (30 i gyd) ac, er mwyn sicrhau bod cysondeb ledled yr Ymddiriedolaeth, bydd gweddill y Goruchwylwyr Parafeddygol yn cael eu gwneud yn Arweinwyr Tîm Clinigol dros y 2-3 mis nesaf, ac yn cael y cymorth a'r datblygiad priodol.

Erbyn diwedd mis Hydref, roedd dros 90% o staff wedi cytuno ar fanylion y swydd a neilltuwyd ar eu cyfer. Erbyn diwedd mis Tachwedd, bydd gan bob aelod o staff WAST fanylion KSF cymeradwy wedi'u clustnodi ar eu cyfer.

**I'w gwblhau erbyn 31 Ionawr 2009**.

Mae amser penodedig ar gyfer yr elfennau arweiniad wedi cael eu cynnwys fel rhan o broffil y swydd.

b. Mae Cyfarwyddwyr Rhanbarthol WAST yn cynnal arfarniadau personol, sy'n cynnwys disgwyliadau clir o ran cyflawni arfarniadau, a'r nifer a'r ansawdd y dylid eu cyflawni erbyn cerrig milltir penodol. Rydym yn rhagweld y bydd gan bob aelod o staff anweithredol Gynlluniau Datblygu Personol, ar ôl cael cyfarfod ADP, erbyn 31 Rhagfyr 2008. Bydd 50% o'r staff gweithredol wedi cwblhau'r broses hon erbyn 31 Mawrth 2009. Bydd y Staff Rheoli wedi'i chwblhau erbyn 31 Mawrth 2009. Bydd y Cyfarwyddwyr Rhanbarthol wedi'i chwblhau erbyn 30 Tachwedd  2008.

## 3. Argymhelliad:

Mae'n amlwg bod prinder technoleg a fyddai'n galluogi ambiwlansys yr Ymddiriedolaeth i ymateb yn gynt i achosion brys. Nid oes gan staff yr ystafelloedd rheoli y dechnoleg sy'n dweud yn union ymhle mae'r ambiwlansys. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gofyn am gyllid gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer system i leoli cerbydau'n awtomatig (AVLS) a gwell technoleg i anfon gwybodaeth am ddigwyddiad o'r ystafell reoli i derfynell ddata symudol yn yr ambiwlansys.

**Rydym yn pryderu bod y cynnydd yn araf wrth osod y systemau hyn ac nad oes dim wedi'i wneud ers i ni glywed tystiolaeth gan y gwasanaethau ambiwlans y tro diwethaf. Felly, rydym yn argymell yn gryf fod Llywodraeth y Cynulliad yn trafod achos busnes yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y dechnoleg hon, ac yn gwneud penderfyniad ar y mater ar fyrder.**

**Derbyniwyd:** Cafodd yr Achos Busnes ei gyflwyno ym mis Ebrill 2008, ac mae eisoes wedi bod drwy'r broses graffu angenrheidiol.  Fodd bynnag, hyd yma nid yw'r mater o ganlyniadau refeniw cylchol heb eu hariannu, sy'n werth £961,000, wedi'i ddatrys, ac mae hynny wedi golygu na fu modd bwrw ati â'r

Achos Busnes. Yn ogystal â hynny, mae'r Ymddiriedolaeth yn chwilio am daliadau cyfalaf gwerth £640,000 y flwyddyn.

Mae swyddogion wedi cyfarfod gyda WAST a Chomisiwn Iechyd Cymru (CIC), ac wedi gofyn iddynt gytuno ar sut y bydd costau refeniw'r system yn cael eu hariannu. Bydd y materion ariannu yn cael eu datrys cyn hir.

Barn CIC yw, er eu bod yn cefnogi'r achos busnes mewn egwyddor, nad yw'r goblygiadau refeniw sy'n gysylltiedig ag ef yn fforddiadwy. Mae cyfarfodydd eisoes wedi'u cynnal rhwng CIC a WAST i ddatrys y mater hwn. Ar 5 Tachwedd, ysgrifennodd CIC i WAST â chynnig. Mae'r cynnig hwn yn cael ei ystyried gan WAST ar hyn o bryd, ac mae trafodaethau pellach yn digwydd gyda CIC.

## 4. Argymhelliad:

O ran ei hystâd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella'i gwaith yn y maes hwn drwy greu tair swydd ar gyfer rheolwyr ystâd rhanbarthol a thrwy benodi cyfarwyddwr gweithredol sydd â chyfrifoldeb penodol dros yr ystâd a TGCh. Fodd bynnag, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth ar gyfer ei hystâd, ac eithrio Achos Amlinellol Strategol sydd wrthi'n cael ei adolygu gan Lywodraeth y Cynulliad.Disgwylir penderfyniad arno maes o law.

**Rydym yn argymell y canlynol:**

a) **dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau nad oes unrhyw oedi diangen wrth drafod Achos Amlinellol Strategol yr Ymddiriedolaeth, fel y gellir mynd ati'n fuan i ddatblygu strategaeth fanwl ar gyfer yr ystâd;**

b) **dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu strategaeth fanwl ar gyfer ei hystâd sy'n rhoi sylw i'r gwaith cynnal a chadw y mae angen ei wneud ers tro ar yr ystâd bresennol, yn ogystal â datblygu cyfuniad priodol o orsafoedd a mannau ymadael i ambiwlansys yn y gymdeithas. Dylai'r strategaeth hefyd roi ystyriaeth lawn i'r posibilrwydd o rannu cyfleusterau â'r gwasanaethau brys eraill;**

c) **dylai'r Ymddiriedolaeth gymryd camau pendant i gynnwys ei staff wrth ddatblygu'r strategaeth ar gyfer ei hystâd, oherwydd mae'n debygol y bydd hyn yn golygu newid lleoliadau'r gorsafoedd ambiwlans a'r mannau ymadael.**

**Derbyniwyd**: a.) – b.) Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi derbyn Achos Amlinellol Strategol yng nghyd-destun Cam 1 Strategaeth Ystad yr Ymddiriedolaeth. Mae hwnnw gyda'r Gweinidog i'w gymeradwyo.

Mae'r Achos Amlinellol Strategol hwn yn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer yr ystâd, ac yn nodi'r llwybr a ffefrir ar gyfer symud ymlaen. Mae'r Achos Amlinellol Strategol yn ceisio am gymeradwyaeth er mwyn symud ymlaen i

ddatblygu achosion busnes manwl ar gyfer datblygiadau pwysig, gan gynnwys Wrecsam a Chaerdydd.

Mae WAST yn bwriadu adeiladu Canolfannau Adnoddau Ambiwlans yng Nghaerdydd a Wrecsam, a bydd y cynllun yn Wrecsam yn cael ei wneud ar y cyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Adeilad pwrpasol yw Canolfan Adnoddau Ambiwlans, wedi'i gynllunio ar gyfer nifer o swyddogaethau, gan gynnwys lle i gadw cerbydau, cyfleusterau ar gyfer hyfforddi staff, cyfleusterau i baratoi'r ambiwlansys a chynnal a chadw'r cerbydau.

Dylid nodi hefyd bod Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i WAST gynhyrchu dogfen strategol sy'n disgrifio'r berthynas sy'n bodoli rhwng achosion busnes cyfalaf amrywiol, hy Achos Amlinellol Strategol yr Ystad, achos busnes y system ddata symudol, a'r achos busnes a dderbyniwyd ar gyfer cyfnewid cerbydau. Mae hyn ar y gweill ar hyn o bryd. Mae WAST hefyd wedi cael cais i greu strategaeth gerbydau i gefnogi eu cais blynyddol am arian i gael cerbydau newydd. Mae trafodaethau ar y mater hwn yn parhau.

c.) Cafwyd cadarnhad gan yr Ymddiriedolaeth bod Grwpiau Llywio wedi cael eu sefydlu, gan gynnwys 'Grŵp Llywio yr Ystadau a Cherbydau Ambiwlans' y bu cynrychiolwyr y staff yn eu mynychu.

**5. Argymhelliad:**

Mae angen rhoi ystyriaeth lawnach i wasanaethau ambiwlansys wrth ddiweddaru Cynllun Gofodol Cymru. Bydd y cynllun yn dylanwadu ar ddyfodol rhwydwaith ffyrdd Cymru a gallai hyn gael effaith sylweddol ar allu'r Ymddiriedolaeth i ymateb i achosion brys.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys y gwasanaethau ambiwlans yn llawnach ym mhroses y cynllun gofodol. Dylid cynnwys cynrychiolwyr yr Ymddiriedolaeth ym mhob un o'r chwe grŵp ardal strategol sydd wedi'i sefydlu.**

**Derbyniwyd:** Bydd tîm y Cynllun Gofodol yn cysylltu i sicrhau bod y gwasanaeth ambiwlans yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y system cynllunio gofodol. Mae'r GIG yn cael ei gynrychioli ym mhob un o ardaloedd y cynllun gofodol drwy gynrychiolydd a enwebwyd ar ran y prif weithredwr. Byddwn yn gofyn iddynt rannu papurau ac adroddiadau gyda'r gwasanaeth ambiwlans a threfnu cyfarfodydd cyswllt rheolaidd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r materion sy'n cael eu trafod.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn trafod gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru sut y gall gymryd rhan gyflawn yn y broses o gynllunio gofodol.

## 6. Argymhelliad:

Mae strategaeth Llywodraeth y Cynulliad, *Cyflenwi Gwasanaethau Gofal Brys,* yn rhoi cyfleoedd helaeth i newid y system bresennol ar gyfer gofal heb ei drefnu ac i wella'r canlyniadau i gleifion. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ganolog wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn ac mae angen iddi gyfrannu'n helaeth wrth ddatblygu'r llwybrau gofal newydd a fydd yn deillio o'r strategaeth newydd. Bydd hyn hefyd yn ddibynnol ar ddealltwriaeth dda o'r galw am wasanaethau gofal heb ei drefnu.

**Rydym yn argymell y canlynol:**

a) **drwy ei gwaith yn moderneiddio'r gwasanaethau ambiwlans o dan y strategaeth *Cyflenwi Gwasanaethau Gofal Brys,* dylai'r Ymddiriedolaeth weithio gyda'i phartneriaid i ddatblygu dealltwriaeth well o natur a maint y galw am wasanaethau gofal heb ei drefnu;**

b) **dylai'r Ymddiriedolaeth a'i sefydliadau partner ddefnyddio'r wybodaeth well am natur a maint y galw i gynllunio mathau newydd o wasanaethau a llwybrau gofal sy'n darparu gofal cyflym ac effeithiol i gleifion. Wrth wneud hynny, dylid rhoi cyn lleied o bwysau â phosibl ar elfennau pwysicaf y system gofal heb ei drefnu;**

c) **er mwyn paratoi staff yr Ymddiriedolaeth i ddarparu mathau newydd o wasanaethau, dylai'r Ymddiriedolaeth lunio cynllun datblygu gweithlu cynhwysfawr. Dylai hwn gynnwys rhaglenni hyfforddi ac addysgu perthnasol er mwyn sicrhau bod gan y staff ddigon o sgiliau i ddarparu gwasanaethau clinigol ehangach a fydd yn eu galluogi i drin a chyfeirio nifer cynyddol o gleifion heb orfod eu cludo i'r ysbyty.**

**Derbyniwyd:** a. Mae WAST wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid gofal iechyd a gofal cymdeithasol, gyda'r bwriad pennaf o nodi dyblygiadau a bylchau mewn gwasanaethau iechyd; pennu dyfodol gofal heb ei drefnu (USC) drwy benderfynu ar y model gwasanaeth priodol; a datblygu cynllun i weithredu'r newidiadau. Aed ati i gyflawni hyn mewn nifer o ffyrdd:

- Aelodaeth WAST ar Fyrddau Partneriaeth USC – er mwyn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn integreiddio â'r cynlluniau sy'n cael eu datblygu gan Gymunedau Iechyd Cymru;
- Gweithdy ar gyfer pob pennaeth Gofal heb ei Drefnu (USC)/Cyflenwi Gwasanaethau Gofal Brys (DECS) GIG Cymru, wedi eu cynnal gan WAST. Cynhaliwyd y gweithdy gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH).
- Cymryd rhan yn astudiaeth gyflawn Swyddfa Archwilio Cymru o USC.

Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn casglu data ar ofal heb ei drefnu fel mater o drefn drwy gyfrwng ystyried ymateb y gwasanaeth ambiwlans, er ei bod hi'n gydnabyddedig y byddai nifer fawr o alwadau 999 (ar amcangyfrif tua 60%) yn cael eu mesur yn fwy priodol drwy gyfrwng targedau clinigol (e.e. ddim yn gyfan gwbl seiliedig ar amser, ond yn seiliedig ar isafswm yr amser a gymerwyd i ddarparu'r gofal terfynol / y lefel briodol o ofal). Er mwyn deall y

galw am y data hwn, a'r modd y mae'n cael ei fesur, yn well, bydd WAST yn cymryd rhan yn y gwaith o osod 'targedau deallus', a fydd yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Y diben penodol fydd gweithio gyda'r grŵp craidd ar gyfer gofal heb ei drefnu, a fydd yn adrodd i'r grŵp llywio mesurau gwella iechyd.

b. Bydd y Fframwaith Gweithredu Blynyddol ar gyfer 2009-10 yn gosod rheidrwydd ar gymunedau iechyd i ddatblygu Cynlluniau Cyflenwi Lleol 2 flynedd ar gyfer gwasanaethau gofal heb ei drefnu. Bydd y Cynlluniau Cyflenwi Lleol yn gosod rheidrwydd ar WAST/cymunedau i nodi'n glir faint o alw sydd am wasanaethau gofal heb ei drefnu, sut y mae'r galw yn cael ei ddiwallu, a nodi sut y bydd proffil y galw a'r gwasanaeth yn newid yn y dyfodol. Bydd rheidrwydd ar Gynlluniau Cyflenwi Lleol i nodi'r cynllun ar gyfer cyflawni'r gwelliannau i'r system. Bydd patrwm y Cynlluniau Cyflenwi Lleol yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2008, a disgwylir cael yr ymatebion erbyn mis Mawrth 2009.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu Cam 2 y DECS, a fydd yn gosod nifer o safonau gweithredol ar gyfer gofal heb ei drefnu y bydd rhaid i WAST / cymunedau iechyd weithio tuag atynt, a fydd yn cael eu nodi yn y Cynlluniau Datblygu Lleol.

Mae WAST a'r cymunedau iechyd wedi cwblhau asesiad gwaelodlin a hwyluswyd gan NLIAH o'u systemau gofal heb ei drefnu (mis Hydref 2008) a fydd yn darparu llawer o'r wybodaeth a fydd ei hangen i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer mis Rhagfyr. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio mewn partneriaeth a'r cymunedau iechyd i sicrhau bod y cynlluniau hyn wedi'u hintegreiddio, a'u bod yn gadarn.

**Amserlen:  Rhagfyr 2008 / Mawrth 2009**

c. Mae gan WAST gynllun gweithredu gweithlu yn ei le sy'n cynnwys datblygu strwythurau cynllunio priodol yn fewnol ac yn allanol. Mae Cyfarwyddwyr Rhanbarthol WAST yn aelodau o fforymau cynllunio'r cymunedau iechyd perthnasol, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Grŵp Llywio Cynllunio'r Gweithlu i weithredu a datblygu'r cynllun gweithredu. Bydd y cynllun hwn yn hwyluso'r broses o gydweithio'n agos â NLIAH a gweithdrefnau cynllunio gweithlu integredig GIG Cymru. Gwnaed cynnydd eisoes o ran integreiddio'r broses cynllunio gweithlu yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau gweithredol. Ynghyd â'r camau gweithredu i roi'r prosesau KSF a CDP ar waith, bydd hyn yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i gwblhau cynllun hyfforddi a datblygu cadarn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Amserlen: 31 Mawrth 2009**

**7. Argymhelliad**:

Nid yw'n dderbyniol bod amseroedd trosglwyddo cleifion i'r ysbyty cyn mynd i ddelio â'r alwad nesaf yn effeithio ar brofiad y claf ac ar griw'r ambiwlans ei hun. Mae'r amseroedd hir wrth drosglwyddo cleifion a mynd i ddelio â'r alwad nesaf yn broblem ddifrifol i gleifion, boed y rheini yng ngofal parafeddygon y tu allan i'r ysbyty neu'n disgwyl am ambiwlans yn rhywle arall. **Rydym yn argymell y canlynol:**

a) **dylai Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddio'i system o fonitro perfformiad ar gyfer y targed trosglwyddo 15 munud newydd i ganfod a datrys prif achosion amseroedd hir wrth drosglwyddo cleifion;**

b) **mae ymddiriedolaethau'r GIG yn cynnal dadansoddiadau rheolaidd a chyson o'r rhesymau dros amseroedd hir wrth drosglwyddo cleifion, a dylent wneud gwir ymdrech i leihau difrifoldeb ac effaith y broblem hon;**

c) **gan weithio gyda'i phartneriaid mewn ymddiriedolaethau acíwt, dylai'r Ymddiriedolaeth ddefnyddio'r data o'r targed trosglwyddo 15 munud i ddeall a datrys y prif reswm dros yr amseroedd hir wrth drosglwyddo cleifion a mynd i ddelio â'r alwad nesaf.**

**Derbyniwyd:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cydweithio â'r GIG i weithredu'r ateb electronig, sydd wedi bod yn weithredol er 1 Hydref 2008. Mae'r system hon yn gwella cywirdeb y data o ran amserau trosglwyddo.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynyddu ffocws rheoli perfformiad ar y mater hwn drwy gyfrwng Swyddfeydd Rhanbarthol a'r Uned Cyflenwi a Chymorth. Mae'r Uned Cyflenwi a Chymorth yn gweithio gyda sefydliadau amrywiol i wella prosesau Damweiniau ac Achosion Brys, a chynllunio ar gyfer llif a rhyddhau cleifion, a ddylai helpu i leihau amserau trosglwyddo cleifion.

Mae'r Swyddfeydd Rhanbarthol yn sicrhau bod ymyriadau blaenoriaethu yn cael eu cymhwyso fel sy'n briodol. Meysydd penodol sy'n achosi pryder yw Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Prifysgol Cymru. Mae'r amserau trosglwyddo yn y ddwy Ymddiriedolaeth hon yn golygu bod WAST yn colli tipyn o oriau gweithio, gan arwain at effaith andwyol ar eu gallu i fodloni targedau Categori A yn y De-ddwyrain, ac yn genedlaethol, felly.

- Mae'r Cyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau a Rheoli Perfformiad wedi cynnal cyfarfodydd misol gydag amryw o Ymddiriedolaethau a WAST i bennu beth yw'r materion, ac i ddod o hyd i atebion, a'u gweithredu.

- Mae'r rhwystrau allweddol i gyflawni'r targed trosglwyddo ym mhob cymuned eisoes wedi'u nodi i raddau helaeth. Mae cynlluniau gweithredu, a gytunwyd ar y cyd rhwng WAST a'r Ymddiriedolaethau,

yn weithredol, er mwyn gwella perfformiad mewn meysydd lle nad yw'n dderbyniol.

- Mae'r cynlluniau gweithredu yn cael eu rheoli gan y Swyddfeydd Rhanbarthol a'r Uned Cyflenwi a Chymorth, ac mae'r cynnydd yn cael ei drafod yn rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau a Rheoli Perfformiad er mwyn sicrhau bod ffocws uchel yn cael ei gynnal.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn y broses o adolygu amserau prosesu ysbytai fel rhan o'i astudiaeth gwerth am arian o'r system gofal heb ei drefnu. Mae'r gwaith hwn ar y gweill.

Mae WAST wedi datblygu fframwaith drafft i'w gytuno gyda phartneriaid y GIG, i sicrhau bod gofal cleifion yn cael ei drosglwyddo'n amserol o'r ambiwlans i'r adrannau damweiniau ac achosion brys a wardiau eraill yr ysbytai. Bydd manylion y fframwaith hwn yn cael ei drafod gyda Phrif Weithredwyr yn y cyfarfod cenedlaethol nesaf, gan ofyn am eu cymorth a'u cytundeb.

Mae'r Fframwaith yn nodi'r broses ar gyfer dadansoddi, yn rheolaidd ac yn gyson, y rhesymau am amserau trosglwyddo sy'n rhy hir, ac yn awgrymu'r arfer gorau er mwyn lleihau maint ac effaith y broblem hon.

Mae'r cynllun mewnol i flaenoriaethu'r trosglwyddiadau o ambiwlans mewn achosion o oedi wedi cael ei adolygu a'i ail-lansio.

Mae gweithdrefn safonol ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans, sy'n mynd i'r afael yn benodol ag oedi yn y gwasanaeth ambiwlans, yn cael ei sefydlu drwy ymgysylltu â staff. Bydd y weithdrefn yn helpu i leihau'r amser a dreulir yn yr ysbyty

**8. Argymhelliad**:

Er bod perfformiad yr Ymddiriedolaeth wedi gwella'n gyffredinol, mae rhai problemau sylweddol yn dal i fodoli mewn meysydd penodol a cheir gwahaniaethau annerbyniol rhwng gwahanol ardaloedd ac o ddydd i ddydd. **Rydym yn argymell y canlynol:**

a) **dylai rhanbarth de-ddwyrain yr Ymddiriedolaeth roi strwythur arwain newydd ar waith cyn gynted â phosibl. Mae arweinyddiaeth effeithiol yn hanfodol er mwyn datrys y problemau presennol yn y de-ddwyrain, gan gynnwys ysbryd isel iawn ymysg y staff ac amseroedd hir o ran mynd i ddelio â'r alwad nesaf;**

b) **dylai'r Ymddiriedolaeth leihau amrywiadau ansafonol yn ei pherfformiad o ran amser ymateb drwy roi ei fframwaith rheoli perfformiad ar waith ar y lefel weithrediadol isaf, a hynny er mwyn sicrhau dadansoddiadau a gwelliannau mwy pendant wrth edrych ar berfformiad o ddydd i ddydd.**

**Derbyniwyd**: a) Penodwyd Cyfarwyddwr Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth y De-ddwyrain ar 1 Mai 2008.

Y maes allweddol sy’n galw am sylw'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol newydd yw amserau prosesu a throsglwyddo (Gweler pwynt 7).

Mae’r Ymddiriedolaeth Ambiwlans yn adolygu ei strwythur arweiniad yn Rhanbarth y De-ddwyrain, cyn gweithredu, o bosibl, cynllun peilot ar gyfer gwerthuso. Mae cynigion wedi eu gwneud i newid drwy sefydlu tri Phennaeth Gwasanaeth; Morgannwg Ganol, De Morgannwg a Gwent.

Mae’r Ymddiriedolaeth yn cynnal adolygiad o’i strwythur rheoli. Mae hwnnw yn cael ei gefnogi gan gynllun i nodi a gwella’r gallu rheoli er mwyn sicrhau bod gan reolwyr y sgiliau priodol i wneud eu gwaith.

b) Mae nifer o gamau gweithredu yn cael eu cymryd i fynd i’r afael â’r broblem o berfformiad amrywiol yng nghyd-destun amser ymateb i alwadau. Ymhlith y rhain mae:

- Gosod targedau amser ymateb i alwadau ar lefel Byrddau Iechyd Lleol (BILl), er mwyn sicrhau tegwch wrth ddarparu’r gwasanaeth;
- Datblygu targed i fesur amserau trosglwyddo yn y prif Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, a chanolbwyntio ar ryddhau ambiwlansys i ymateb i alwadau lle bo bywydau yn y fantol.
- Datblygu cynlluniau gwella rhanbarthol i fynd i’r afael â pherfformiad o lai na 60% yn ardaloedd y BILlau;
- Adolygu rotâu staff a’r defnydd o drefniadau goramser;
- Penodi arbenigwr ar logisteg dros dro i adolygu trefniadau WAST ar gyfer defnyddio cerbydau ac adnoddau staff;
- Cyfarfodydd Gofal heb ei Drefnu rheolaidd, i gael eu cadeirio gan Gyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau a Rheoli Perfformiad Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (AIGC), sy’n galluogi i faterion sy’n peri pryder i bawb gael eu trafod ac i gamau gweithredu gael eu pennu.

**9**. **Argymhelliad**:

Mae’r galw cynyddol i wneud arbedion effeithlonrwydd, prisiau tanwydd sy’n codi a chostau cyrraedd y targedau cysondeb newydd i gyd yn cyfrannu at sefyllfa ariannol fregus yr Ymddiriedolaeth.

**Rydym yn argymell y canlynol:**

a) **dylai Comisiwn Iechyd Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru drafod â’r Ymddiriedolaeth sut i gyllido’r targedau cysondeb newydd ar sail dadansoddiad manwl o’r costau hynny gan yr Ymddiriedolaeth;**

b) **er mwyn lleihau ei chostau tanwydd, dylai’r Ymddiriedolaeth astudio’r pecynnau hunanasesu a’r enghreifftiau o arferion da wrth reoli fflyd gerbydau, sydd i’w gweld ar Gyfnewidfa Arfer Da gwefan Swyddfa**

**Archwilio Cymru.**

**Derbyniwyd:** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu dadansoddiad manwl o'i gofynion ariannu ychwanegol er mwyn cyflawni'r targedau perfformiad, sy'n gyfanswm o £9.3 miliwn o gostau y flwyddyn. Mae rheidrwydd ar yr Ymddiriedolaeth i gyflawni arbedion y Rhaglen Newid Strategol ac Effeithlonrwydd (SCEP) gwerth £17.05 miliwn. Yn ogystal, mae pwysau yn ystod y flwyddyn wedi golygu bod rhaid i'r Ymddiriedolaeth greu dau gynllun arbedion arall yn 2008/09, i gael gwared ar y diffygion ariannol a gofnodwyd. Mae'r rhain gyfystyr â £2.3 miliwn yn ystod mis 3, a £2.468 miliwn yn ystod mis 5. Yn ystod mis 6, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y ceir cydbwysedd ariannol ar gyfer 2008/09.

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng WAST, Comisiwn Iechyd Cymru (CIC) a'r Cyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau a Rheoli Perfformiad, gyda'r bwriad o nodi ateb(ion) a fyddai'n helpu WAST i fodloni targedau cenedlaethol ymateb i alwadau.

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2008, cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau a Rheoli Perfformiad yr AIGC nifer o ofynion ar yr ymddiriedolaethau. Gofynnwyd i CIC a WAST gydweithio i greu cynllun a fydd yn cytuno ar y gwelliannau y gellid eu cyflawni gyda'r adnoddau presennol. Bydd rheidrwydd ar WAST i nodi arbedion a wnaed o ganlyniad i reoli'r amser y mae staff yn ei golli o ganlyniad i salwch yn well, effaith y cwymp mewn prisiau tanwydd, ac effaith gwella amserau prosesu ambiwlansys, yn ogystal ag unrhyw opsiynau eraill y mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus y gall eu cyflawni. Nid yw hynny wedi ei gymeradwyo gan y ddwy ochr eto, gan na fu unrhyw gytundeb terfynol hyd yma.

Mae WAST yn cynnal nifer o fentrau i leihau costau tanwydd, gan gynnwys trafod defnyddio cardiau tanwydd i sicrhau ei bod yn cael y prisiau gorau, ac mae wedi cyflwyno manylion monitro manwl i sicrhau bod tanwydd yn cael ei brynu yn y gorsafoedd petrol sy'n cynnig y prisiau isaf yn yr ardal.

Mae cyfarfod arall wedi'i drefnu ar gyfer 28 Tachwedd 2008 pan fydd y Cyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau a Rheoli Perfformiad yn cyfarfod â'r ddau sefydliad eto i drafod y cynllun.

Mae'r Ymddiriedolaeth eisoes wedi cymryd nifer o gamau i leihau gwariant ei fflyd. Mae'r rhain yn cynnwys tendro am gerdyn tanwydd gwahanol, monitro pa orsafoedd petrol sy'n cael eu defnyddio, sicrhau bod teiars dros dro yn cael eu newid, newid y cyfnod o amser rhwng rhoi gwasanaeth i gerbydau'r Gwasanaeth Gofal Cleifion (PCS) a thendro ar gyfer cyflenwyr cynnal a gofal yn Rhanbarth Canol Cymru a Rhanbarth y Gorllewin. Mae'r tîm archwilio mewnol newydd orffen eu hadolygiad, a bydd yr Ymddiriedolaeth yn cytuno ar unrhyw newidiadau pellach gyda hwy fel y bo hynny'n briodol. Mae cynnydd yr Ymddiriedolaeth yn y maes hwn wedi'i rwystro o ganlyniad i fethu newid y cerbydau hŷn yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**10. Argymhelliad**:

Mae angen cydbwysedd rhwng cymryd camau yn y tymor byr er mwyn ymateb i ddisgwyliadau'r cyhoedd, a chamau yn y tymor hwy i drawsnewid yr Ymddiriedolaeth fel ei bod mewn sefyllfa i gynnal gwelliannau o'r fath yn barhaus.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried yn ofalus y cydbwysedd rhwng yr angen i gyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol a'r angen i ddarparu amser a lle i'r Ymddiriedolaeth gyflawni ei chynllun moderneiddio yn y tair blynedd sy'n weddill. At y diben hwn, rydym yn argymell hefyd fod yr Ymddiriedolaeth yn pennu cyfres o gerrig milltir chwe misol ar gyfer cymryd camau a gwella'i pherfformiad wrth roi'r cynllun ar waith, a dylid cytuno ar y rhain â Llywodraeth y Cynulliad.**

**Derbyniwyd:** Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad gwreiddiol, *Ambulance Services in Wales*, ym mis Rhagfyr 2006. Cafodd "Amser i Wneud Gwahaniaeth" ei gyhoeddi gan WAST ym mis Ionawr 2007. Cafodd Adroddiad y Pwyllgor Archwilio ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2007, ac Adroddiad CIC ym mis Ionawr 2007.

Diben "Amser i Wneud Gwahaniaeth" yw moderneiddio a newid pwyslais y Gwasanaeth Ambiwlans fel arweinydd ar ofal heb ei drefnu yng Nghymru, a gwella amserau ymateb i alwadau Categori A.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi amser i'r Ymddiriedolaeth weithredu "Amser i Wneud Gwahaniaeth". Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi bod angen edrych eto o ddifrif ar y ffordd y mae'r rhaglen "Amser i Wneud Gwahaniaeth" yn cael ei rhoi ar waith o ganlyniad i faterion sy'n codi, fel DEC, a datblygiadau o ran rheoli cyflyrau cronig.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi rhaglen newid cerbydau yr Ymddiriedolaeth, ei rhaglen ystadau, ac wedi annog yr Ymddiriedolaeth i gryfhau ei Dîm o Uwch Swyddogion ar lefel Genedlaethol a Rhanbarthol. Er gwaethaf hynny a rheoli perfformiad cadarn, mae amserau ymateb i alwadau Categori A yn siomedig iawn o hyd.

Mae WAST wedi torri'r rhaglen "Amser i Wneud Gwahaniaeth" i haenau o waith ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ac mae'n gallu defnyddio'r system hon i ddangos canlyniadau 6 mis: mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'r adroddiad diwedd haenen ac adroddiadau haenen canol tymor sy'n cael eu cynhyrchu ym mis Ebrill a Hydref. Bydd WAST yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod y cerrig milltir 6 mis yn fanwl, ac yn cael eu cofnodi gyda manteision amlwg a fydd yn cynnwys gwella perfformiad.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi bod angen adnewyddu "Amser i Wneud Gwahaniaeth", ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio i symleiddio'r rhaglenni sy'n perthyn i'r Strategaeth. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud dan

arweiniad Cyfarwyddwr Gweithredol gyda Rheolwr Prosiect “Amser i Wneud Gwahaniaeth”  llawnamser. Mae WAST wedi sefydlu gweithdrefn i rannu’r cerrig milltir yn raddfeydd amser 6 mis. Bydd hyn yn cael ei gymeradwyo gan Grŵp Rheoli Risg a Sicrhau Ansawdd yr Ymddiriedolaeth ar 16 Rhagfyr 2008.

Bydd y rhaglen “Amser i Wneud Gwahaniaeth”  ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno wedi hynny i’r Swyddfa Ranbarthol, lle bydd fframwaith rheoli perfformiad yn cael ei sefydlu i fonitro’r camau gweithredu.